# Trosolwg o'r Partneriaethau Chwaraeon

## Partneriaethau Chwaraeon Gorllewin a Chanolbarth Cymru

Pecyn Gwybodaeth i Ymgeiswyr



**MID WALES SPORTS PARTNERSHIP** | **PARTNERIAETH CHWARAEON CANOLBARTH CYMRU**

**WEST WALES SPORTS PARTNERSHIP** | **PARTNERAIETH CHWARAEON GORLLEWIN CYMRU**

# Trosolwg o'r **Partneriaethau Chwaraeon**

Mae Partneriaethau Chwaraeon Gorllewin a Chanolbarth Cymru yn falch o fod yn gweithio gyda Chwaraeon Cymru i ddatblygu ein partneriaethau chwaraeon rhanbarthol newydd.

Bydd y partneriaethau yng Ngorllewin a Chanolbarth Cymru ill dwy yn dod â rhanddeiliaid allweddol o'u rhanbarthau at ei gilydd, rhanddeiliaid sy'n deall pwysigrwydd chwaraeon a gweithgarwch corfforol ac sy'n canolbwyntio ar gyflwyno eu manteision.

Bydd ein partneriaethau'n cael eu harwain gan wybodaeth a byddant yn canolbwyntio ar yr unigolyn yn ein dull o weithredu, gan ddarparu arweinyddiaeth strategol, cynllunio a chomisiynu ar lefel ranbarthol gyda diben cyffredin yn cael ei gyflawni ar lefel leol gan sicrhau bod gan bawb fynediad cyfartal i chwaraeon a gweithgarwch corfforol drwy amrywiaeth o gyfleoedd sy'n diwallu eu hanghenion orau.

Rydyn ni'n awyddus i gyflwyno ffyrdd newydd o weithio, gan fanteisio i'r eithaf ar y potensial ar gyfer dull gweithredu rhanbarthol, a hefyd creu gweledigaeth gadarn a fydd yn meithrin perthnasoedd strategol newydd gyda nifer eang o sefydliadau a phartneriaid ar draws y rhanbarthau.

Bydd pob partneriaeth yn cael ei harwain gan Gadeirydd a bwrdd annibynnol.

Bydd gan PChGC a PChCC arweinyddiaeth Weithredol i gyflawni'r gweledigaethau a'r amcanion strategol.

**MID WALES SPORTS PARTNERSHIP | PARTNERIAETH CHWARAEON CANOLBARTH CYMRU**

**WEST WALES SPORTS PARTNERSHIP | PARTNERAIETH CHWARAEON GORLLEWIN CYMRU**

# Gweledigaeth ac Amcanion Strategol

**Gweledigaeth esblygol Partneriaeth Chwaraeon Gorllewin Cymru yw:**

"*Gweithio gyda'n cymunedau ni i'w helpu i ofalu am fod yn actif a gweld gwerth mewn dulliau gweithredu sy'n hyrwyddo ffyrdd o fyw iach ac ansawdd bywyd da i bawb.*"

WEST WALES SPORTS PARTNERSHIP | PARTNERAIETH CHWARAEON GORLLEWIN CYMRU

## Amcanion strategol:

### Pobl

- Gwella iechyd a lles, a hapusrwydd pobl drwy gymryd rhan actif gydol oes mewn chwaraeon a hamdden gorfforol.
- Gwerthfawrogi tegwch, gan sicrhau bod ffocws penodol yn cael ei roi ar y bobl hynny sy'n llai actif ac sydd angen cefnogaeth ychwanegol sy'n arwain at welliant yn eu hiechyd, eu lles, eu cyfleoedd mewn bywyd a'u cysylltedd cymdeithasol.
- Cefnogi pobl i gyflawni eu llawn botensial mewn chwaraeon.
- Datblygu gweithlu hynod fedrus ac amrywiol o staff (cyflogedig) a gwirfoddolwyr a all gefnogi gyda darparu chwaraeon a hamdden corfforol yn ogystal â gwella profiad pobl a'u cymhellion i fod yn actif am oes.

### Lleoedd

- Gwneud y defnydd gorau posibl o'i mannau dan do ac awyr agored, gan alluogi pobl i gael dewis o ran ble maent yn dymuno bod yn actif, am ba gost a gyda phwy.

### System

- Gweithio ar y cyd ac yn gynaliadwy i adeiladu systemau, cynyddu adnoddau a rhannu ffyrdd o feddwl i wella cyfleoedd yn barhaus wrth ofalu am yr amgylchedd a'r blaned i bobl fod yn gorfforol actif am oes.

### Hunaniaeth Brand

- Creu brand deinamig, cyfarwydd a dibynadwy sy'n uno partneriaid, yn adlewyrchu diwylliant unigryw a threftadaeth chwaraeon falch Gorllewin Cymru ac yn hyrwyddo'n gadarnhaol y manteision i bobl o fod yn actif am oes.

### Llywodraethu

- Sefydliad uchel ei barch am fod yn sefydliad effeithiol a chredadwy sy'n arwain o'r blaen ac yn cydweithredu â phartneriaid i gyflawni ei nodau.
- Meddu ar fframwaith llywodraethu cadarn ac effeithiol sy'n darparu sylfaen gredadwy, gref sy'n cefnogi cyflawni effeithiol ar y weledigaeth a'r pwrpas.

### Tystiolaeth

- Yn cael ei arwain gan farn, ymchwil a gwybodaeth arbenigol, gan flaenoriaethu a buddsoddi mewn rhaglenni sy'n effeithio'n uniongyrchol ar wella iechyd, lles a hapusrwydd y bobl mae'n eu cefnogi.

# Gweledigaeth ac Amcanion Strategol

**Gweledigaeth esblygol Partneriaeth Chwaraeon Canolbarth Cymru yw:**

*"Creu cymunedau iachach a thrawsnewid bywydau drwy ffyrdd o fyw actif."*

## Amcanion strategol:

### Pobl

- Dathlu amrywiaeth drwy ganolbwyntio mwy ar yr unigolyn, gyda ffocws penodol ar y bobl hynny sy'n llai actif ac sydd angen cefnogaeth ychwanegol i wella iechyd a lles.
- Creu cyfleoedd i bobl fod yn gorfforol actif / cymryd rhan mewn chwaraeon ym mhob cam yn eu bywydau, gan eu galluogi i gyflawni eu llawn botensial.
- Cefnogi, datblygu a dathlu ein rhwydwaith o wirfoddolwyr a'n gweithlu i ddiogelu dyfodol gweithgarwch corfforol a chwaraeon cymunedol.

### Eiriolaeth ac Arweinyddiaeth

- Arwain gweithgarwch corfforol a chwaraeon yn strategol yn y rhanbarth, gan sicrhau'r canlyniadau gorau i'n trigolion a'n cymunedau ni drwy ddylanwadu ar randdeiliaid allweddol a phartneriaid darparu.
- Ceisio cynyddu adnoddau i wella'n barhaus ac arloesi gyda'r cyfleoedd i bobl fod yn gorfforol actif am oes.

### Cymuned

- Grymuso ein cymunedau ni i ddatblygu eu dulliau eu hunain o gynnal gweithgarwch corfforol a chwaraeon lleol.
- Cydnabod pwysigrwydd a gwerth ein strwythur o glybiau drwy barhau i ddarparu'r gefnogaeth sy'n eu galluogi i ffynnu a chynnal eu cyfraniad at eu cymuned a'u heconomi leol.

### Cyfleusterau

- Hyrwyddo datblygiad cyfleusterau modern, ysbrydoledig o safon byd, gan gynnwys gwneud y defnydd gorau o'n hamgylchedd naturiol a hefyd sicrhau ein bod yn ei warchod.

### Effaith

- Mesur ein perfformiad yn effeithiol a'i gyhoeddi i wella'n barhaus ac i gefnogi penderfyniadau buddsoddi yn y dyfodol.

### Dirnadaeth ac Ymchwil

- Cael ein harwain gan ein dirnadaeth, ein hymchwil a'n tystiolaeth i sicrhau ein bod yn buddsoddi amser ac adnoddau a rennir yn y cymunedau a'r grwpiau poblogaeth hynny lle mae'r angen mwyaf.

# Y Dyfodol ar gyfer Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol yng Nghymru

## Newid Arloesol:

Mae Partneriaethau Chwaraeon Gorllewin Cymru a Chanolbarth Cymru yn chwyldroi chwaraeon cymunedol, gan ysgogi diwylliant o iechyd a lles i bawb.



**Ymunwch â ni i siapio dyfodol iachach, mwy actif!**

MID WALES SPORTS PARTNERSHIP | PARTNERIAETH CHWARAEON CANOLBARTH CYMRU

WEST WALES SPORTS PARTNERSHIP | PARTNERAIETH CHWARAEON GORLLEWIN CYMRU